

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

33/2018

DYDDIAD CYHOEDDI:

MEHEFIN 21, 2018

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

Cam 2, Mehefin 2018

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru: Cam 2, Mehefin 2018

Anthony Lydall a Laura Nesbitt, Strategic Research and Insight



Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Dr. Robert Lewis, Pennaeth Ymchwil Twristiaeth, robert.lewis@llyw.cymru

Adran: Adran Gwyddoniaeth, yr Economi a Thrafnidiaeth

Canolfan QED

Ystad Trefforest

Pontypridd

Rhondda Cynon Taf

CF37 5YR

Ffôn: 0300 061 6026



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan delerau'r [Drwydded Llywodraeth Agored f3.0](#), ac eithrio lle y nodir fel arall.

Contents

1. PRIF GANFYDDIADAU.....	2
2. CANFYDDIADAU ANSODDOL.....	3
3. CEFNDIR A METHODOLEG.....	5
4. PERFFORMIAD HANNER TYMOR MAI/MEHEFIN	7
5. RHESYMAU DROS LEFELAU UWCH O YMWELWYR.....	11
6. RHESYMAU DROS LEFELAU LLAI O YMWELWYR.....	12
7. PROFFIDIOLDEB	13
8. FFYNHONNELL ARCHEBION.....	15
9. HYDER AR GYFER YR HAF	19

1. PRIF GANFYDDIADAU

Haul yn dod â chyfnod llawer gwell

Mae gan fusnesau twristiaeth reswm am optimistiaeth ym mis Mehefin. Wedi dechrau araf i 2018 oherwydd y tywydd, mae'r diwydiant yn edrych llawer mwy bwyiog. Mae traean (33%) o fusnesau wedi derbyn mwy o ymwelwyr yn ystod yr hanner tymor Mai/Mehefin o gymharu â'r llynedd, ac mae bron hanner (47%) wedi derbyn yr un lefel.

Y rheswm pennaf am y gwelliant mewn perfformiad yw tywydd gwell – a grybwyllwyd gan 56% o fusnesau a welodd gynnydd mewn ymwelwyr.

Pob rhanbarth yn perfformio'n dda

Yn mhob un o'r pedwar rhanbarth, mae lefelau busnes wedi cynyddu ar gyfartaledd. Mae'r De Orllewin (lle mae 36% o fusnesau i fyny) a'r Gogledd (lle mae 34% o fusnesau yn sôn am gynnydd) wedi mwynhau cyfnod arbennig o lwyddiannus.

Peth amrywiad yn ôl sector

Y sectorau sydd wedi perfformio orau yw bwytai / tafarnau / caffis (50% o fusnesau yn sôn am gynnydd mewn cwsmeriaid sy'n dwristiaid) a safleodd carafanau a gwersylla (45% o'r rhain i fyny).

Mae'r sector hunanddarpar wedi cael cyfnod mwy cymysg ond eto yma, mae'r nifer tair gwaith mwy o fusnesau yn sôn am lefelau uwch neu gyfartal o ymwelwyr o gymharu â'r llynedd na'r nifer sy'n sôn am ostyngiad.

Hyder uchel ar gyfer yr haf

Yn sgil cynnydd mewn lefelau ymelwyr, mae tua hanner (49%) o fusnesau twristiaeth yn 'hyderus iawn' am yr haf o'u blaenau, ac mae 38% bellach yn 'eithaf hyderus'.

2. CANFYDDIADAU ANSODDOL

2.1 Rydym wedi cynnal cyfweiliadau manwl dros y ffôn â ffigurau twristiaeth allweddol ar draws sefydliadau a chyrrff amrywiol ledled Cymru. Trafodir y prif ganfyddiadau isod.

Cynnydd mewn perfformiad i'w groesawu

2.2 Dywed arweinwyr yn y diwydiant bod eu haelodau yn teimlo rhyddhad o brofi gwell perfformiad yn ystod hanner tymor Mai/Mehefin. Roedd y dechrau gwael i'r flwyddyn wedi golygu bod rhai wedi ofni perfformiad gwael arall.

"Roeddem ni'n poeni y byddem yn cael cyfnod gwael arall, ond roedd yn eithaf da."

"Cawsom hanner tymor da iawn. Gwnaeth y tywydd helpu'n fawr."

Dal i fod ar ei hôl hi o'i gymharu â'r llynedd, ond hyderus o haf da

2.3 Dywed arweinwyr yn y diwydiant a rhanddeiliaid fod nifer o fusnesau mewn cyflwr gwaeth na'r llynedd o ganlyniad i dywydd gwael ar ddechrau'r flwyddyn.

"O ran cyllidebau, rydym i lawr oddeutu 8%."

Mae'r dirywiad ar ddechrau'r flwyddyn yn golygu bod y rhan fwyaf o fusnesau ar ei hôl hi."

2.4 Fodd bynnag, mae'r perfformiad gwell dros hanner tymor Mai/Mehefin a'r tywydd da parhaus yn golygu eu bod yn hyderus y gallant adennill tir.

"Gallai ychydig wythnosau eraill o dywydd da olygu bod mwy o bobl yn archebu ymlaen llaw gan arwain at haf da."

"Rydym yn gwybod y gall tywydd da yn ystod yr haf ddenu rhai ymwelwyr yn ôl ac yna rydym nôl i'r hyn sy'n arferol."

Gallai rhai busnesau gael eu gadael ar eu hôl os nad ydynt yn defnyddio gwefannau archebu trydydd parti

2.5 Mae arweinwyr y diwydiant yn teimlo nad oes modd osgoi gwefannau archebu trydydd parti y dyddiau hyn. Er mai penderfyniad busnesau unigol yw penderfynu a yw'r gwefannau hyn yn addas iddynt neu beidio, maen nhw'n teimlo y bydd rhai ar eu colled drwy beidio â'u defnyddio.

"Mae'n rhaid i bob unigolyn benderfynu a yw'n werthfawr i'w hunan, ond rwyf yn dychmygu bod y rhan fwyaf yn eu defnyddio ar gyfer hysbysebu."

"Nid oes llawer o ddewis a yw pobl yn hysbysebu drwy wefannau archebu trydydd parti neu beidio. Rydych chi'n gallu cael eich gadael ar ôl os nad ydych chi'n gwneud hynny."

Ond mae angen i fusnesau fod yn glyfar o ran sut maent yn eu defnyddio

2.6 Yn aml mae'r busnesau hyn yn cymryd comisiwn uchel. Weithiau caiff hyn ei drosglwyddo i'r cwsmer, gyda phrisiau archebu yn fwy drud nag archebu'n uniongyrchol gyda'r darparwr.

"Rydych chi'n edrych ar gomisiwn o 17% gydag Expedia ac efallai 15% gyda booking.com. Mae Airbnb yn codi llawer llai ond mae'r pris yn uwch i'r cwsmeriaid."

2.7 Ar gyfer sawl un, dylai'r strategaeth ymwneud â defnyddio'r gwefannau hyn fel arf hysbysebu.

"Mae'n golygu bod yn glyfar. Os ydych chi'n defnyddio'r enw busnes ar wefannau fel Airbnb dylai'r cwsmeriaid edrych ar eich gwefan ac archebu'n uniongyrchol beth bynnag."

"Weithiau mae cwsmeriaid yn archebu drwy booking.com, yn gweld prisiau rhatach ar ein gwefan, yn canslo'r archeb ac yna yn ein ffonio ni yn uniongyrchol."

Gallai twf yn y gwefannau hyn effeithio ar farchnata lleoliad

2.8 Mae un arweinydd yn y diwydiant yn pryderu wrth i rai gynyddu eu dibyniaeth ar y safleoedd hyn, efallai na fyddant yn adnewyddu eu haelodaeth gyda'r sefydliad marchnata twristiaeth ar gyfer y lleoliad lleol. Os daw hyn yn realiti, maen nhw'n poeni y bydd busnesau yn dioddef.

"Wrth i fwy o archebion ddod drwy'r gwefannau hyn, bydd llai o fusnesau yn dod yn aelodau, gan effeithio ar ein refeniw. Os na allwn ni hyrwyddo'r rhanbarth oherwydd toriadau, na'r awdurdod lleol, yna dwi ddim yn gwybod o ble y daw'r twf tymor hir."

"Pan fyddwch chi'n defnyddio sianel archebu, rydych chi eisoes wedi penderfynu ble rydych chi'n mynd. Os na allwn ni fforddio gymaint o farchnata lleoliad, yna bydd llai o bobl yn gwybod am yr ardal yn y lle cyntaf."

3. CEFNDIR A METHODOLEG

Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

- 3.1 Cynlluniwyd Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru i roi adborth cyflym ynglŷn â'r ffordd y mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r Arolwg wedi'i gynnal ar ffurfiau amrywiol ers 2005, ac fel arfer cynhelir rhwng dau a phum 'cam' ymchwil bob blwyddyn.
- 3.2 Mae'r cam ymchwil hwn yn ymwneud â hanner tymor ysgol mis Mai/Mehefin yn 2018, gyda mesuriadau hefyd o ddisgwyliadau ar gyfer yr haf.

Sut y cynhelir yr Arolwg?

- 3.3 Rydym wedi cynnal 824 o gyfweiliadau dros y ffôn. Mae hwn yn golygu bod canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i $\pm 3.4\%$. Mae'r sampl yn adlewyrchu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru, ac fe'i dangosir isod yn ôl sector a rhanbarth:

Sector / Rhanbarth	Gogledd	Canolbarth	De-orllewin	De-ddwyrain	Cyfanswm
Llety â gwasanaeth	105	42	65	70	282
Llety hunanarlwyo	91	55	97	27	270
Meysydd carafanau/pebyll	39	11	21	6	77
Hostelau	8	8	8	5	29
Atyniadau	29	17	18	24	88
Bwytai / tafarndai / caffis	8	12	9	12	41
Gweithredwyr gweithgareddau	11	7	14	5	37
Cyfanswm	291	152	232	149	824


- 3.4 Mae tua thri chwarter (74%) o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru ar hyn o bryd, ac mae 26% heb eu graddio. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau nad ydynt wedi eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytai / tafarndai / caffis a gweithredwyr gweithgareddau, lle nad yw graddio'n berthnasol. Mae gweithredwyr bwytai, tafarndai a chaffis wedi eu dewis mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o dwristiaid ar draws gwahanol rannau o Gymru a gofynnwyd iddynt ateb cwestiynau yng nghyd-destun eu cwsmeriaid sy'n dwristiaid (h.y. nid cwsmeriaid lleol).

3.5 Cynhaliwyd pob cyfweiliad dros y ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnes ym mis Mehefin. Ceir copi o'r holiadur fel atodiad.

Cam	Enw'r cam	Cyfnod amser
Cam 1, 2016	Y Pasg	26 Mawrth i 10 Ebrill
Cam 2, 2016	Hanner tymor mis Mai	28 Mai i 5 Mehefin
Cam 3, 2016	Haf	Mehefin i Awst
Cam 4, 2016	Hydref	Medi i ddechrau Tachwedd
Cam 1, 2017	Y Pasg	8 Ebrill i 23 Ebrill
Cam 2, 2017	Hanner tymor mis Mai/Mehefin	27 Mai i 4 Mehefin
Cam 3, 2017	Haf	Mehefin i Awst
Cam 4, 2017	Hydref	Medi i ddechrau mis Tachwedd
Cam 1, 2018	Y Pasg	30 Mawrth i 15 Ebrill
Cam 2, 2018	Hanner tymor mis Mai/Mehefin	26 Mai i Mehefin 3

4. PERFFORMIAD HANNER TYMOR MAI/MEHEFIN

PERFFORMIAD FESUL SECTOR



Maint y sampl: 738

Yr heulwen yn dod â chyfnod gwell

4.1 Yn dilyn dechrau anodd i 2018 gyda thywydd gwael, mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru wedi mwynhau cyfnod da o'r diwedd. Ac eithrio glaw trwm mewn rhai ardaloedd ar ddechrau hanner tymor, mae'r tywydd wedi bod yn gynnes ac yn sych ar y cyfan ers hynny, gan gynyddu'r niferoedd o ymwelwyr i Gymru.

"Gwnaeth y tywydd da ein helpu'n fawr"
Atyniad, y de-orllewin

Tywydd da ar gyfer gweryslla

4.2 Mae'r sector carafanio a gweryslla sy'n ddibynnol ar y tywydd wedi perfformio'n arbennig o dda yn yr heulwen, gydag oddeutu hanner (45%) yn derbyn mwy o ymwelwyr na'r un cyfnod y llynedd.

"Gwych - os yw'r haul yn disgleirio, rydym ni'n gwneud yn dda"
Parc carafanau, y canolbarth

Sglodion a hufen iâ ar lan y môr

4.3 Mae'r sampl o fwytai / tafarndai / caffis yn canolbwyntio ar yr ardaloedd gyda'r nifer uchaf o ymwelwyr, ac yn ystod y tywydd braf mae'r ardaloedd hyn wedi bod yn brysurach. Cafodd

hanner (50%) y bwytai / tafarndai / caffis fwy o gwsmeriaid sy'n dwristiaid o'i gymharu â'r llynedd, ac o'r rheini mae dwy ran o dair (67%) yn priodoli'r cynnydd i'r tywydd.

"Cawsom fwy o gwsmeriaid yr hanner tymor hwn gan ein bod wedi cael tywydd gwell."

Caffi, y de-ddwyrain

Ni fu lleoedd llety hunanddarpar mor ffodus

4.4 Ar y llaw arall mae'r sector hunanddarpar wedi cael cyfnod mwy cymysg, er hyd yn oed yma, mae tair gwaith yn fwy o weithredwyr yn adrodd am lefelau uwch o ymwelwyr o'u cymharu â'r llynedd, na'r rhai sy'n adrodd am ostyngiad. Mae 40% o'r rheini sy'n profi gostyngiad yn y nifer o ymwelwyr wedi ateb drwy ddweud 'ddim yn gwybod' pan ofynnwyd iddynt am eu rhesymau dros y gostyngiad.


"Mae mis Awst yn llawn ond mae mis Mai/Mehfin wedi bod yn ofnadwy o'i gymharu â'r llynedd"

Llety hunanddarpar, y de-ddwyrain

"Dwi ddim yn gwybod pam ei bod lawer yn llai eleni a dim ond un archeb sydd gennyf ar gyfer mis Awst sef yr adeg pan dwi fel arfer yn brysur iawn"

Llety hunanddarpar, y de-ddwyrain


TUEDD O RAN PERFFORMIAD



Mae twf yn y diwydiant wedi ailddechrau

- 4.5 Roedd y diwydiant twristiaeth yng Nghymru'n tyfu'n raddol tan gyfnod gwael dros y Pasg eleni. Diolch byth mae'n ymddangos fel pe bai'r Pasg gwael yn ddigwyddiad untro, a achoswyd gan dywydd anarferol o wael a wnaeth barhau ymhell i mewn i'r hyn a ddylai fod wedi bod yn ddechrau'r gwanwyn.
- 4.6 Fodd bynnag mae'r newid o ran y tywydd bellach wedi gweld y twf yn dychwelyd i'r diwydiant o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

PERFFORMIAD FESUL RHANBARTH



Maint y sampl: 738

Canlyniadau da ar gyfer pob rhanbarth yng Nghymru

- 4.7 Mae pob un o bedwar rhanbarth Cymru wedi mwynhau llwyddiant yn ystod cyfnod hwn. Y tywydd yw'r prif reswm a roddir gan bob rhanbarth, yn enwedig de-orllewin Cymru, lle y mae 70% o fusnesau gyda chynnydd mewn ymwelwyr yn nodi'r tywydd fel ffactor allweddol.

"Rwy'n credu bod mwy o bobl yn mynd ar eu gwyliau yn nes at adref. Mae'r tywydd yn helpu llawer ac mae'n effeithio ar y busnes."

Parc carafanau, y de-orllewin

- 4.8 Yng nghanolbarth Cymru mae digwyddiadau hefyd wedi rhoi hwb i fusnesau. Mae 22% o'r rheini sy'n profi cyfnod prysurach yn nodi hwn fel rheswm.


"Mae pethau wedi bod yn dda oherwydd digwyddiadau felly rydym yn hyderus ar gyfer yr ychydig fisoedd nesaf"

Llety â gwasanaeth, y canolbarth

"Nid oedd gennym wely gwag am bythefnos"

Llety â gwasanaeth, y canolbarth

5. RHESYMAU DROS LEFELAU UWCH O YMWELWYR



Dyna wahaniaeth y gall yr heulwen ei wneud

- 5.1 Fel y trafodwyd eisoes, gwnaeth y tywydd braf, heulog helpu i drawsffurfio perfformiad o ddechreuad sigledig yn 2018 i gyfnod cadarnhaol iawn.


"Daeth yr haul â mwy o ymwelwyr i ni yn ystod yr hanner tymor hwn"
Atyniad, y de-ddwyrain

Marchnata eich hun

- 5.2 Fodd bynnag, yn gyffredinol nid yw'r DU yn lleoliad lle y gall busnesau twristiaeth ddibynnu ar yr haul yn disgleirio yn unig, felly mae rhai yn rhagweithiol iawn wrth gymryd rheolaeth dros eu ffawd eu hunain. Yn ystod y cam ymchwil blaenorol yn y Pasg, gwelsom fod rhai busnesau yn perfformio'n well yn sgil marchnata cryf er gwaetha'r tywydd gwael.

"Gwnaethom hysbyseb deledu ac rydym wedi ychwanegu eitemau newydd i'r amgueddfa. Mae wedi denu mwy o ymwelwyr."
Atyniad, y canolbarth

6. RHESYMAU DROS LEFELAU LLAI O YMWELWYR



Nid yw tywydd heulog yn 'dda' os yw eich atyniad o dan do

6.1 Yn ystod y cam yn y Pasg, gwelsom fod atyniadau o dan do wedi elwa ar ymwelwyr yn chwilio am gysgod rhag y tywydd gwael. Yn ystod y cam hwn, mae'n ymddangos fel petai eu ffawd wedi'i wyrdroi gan fod twristiaid yng Nghymru wedi heidio tua'r traeth.

"Aeth pobl i'r traeth yn lle hynny"
Atyniad, y de-orllewin

Ni ellir cynllunio ar gyfer rhai problemau

6.2 Gall rhedeg busnes fod yn anrhagweladwy ac o bryd i'w gilydd mae problemau'n digwydd.


"Dim gwesteion nawr - cawsom dân, felly mae'r cyfan wedi'i ganslo"
Llety hunanddarpar, y gogledd

Nid yw llawer o bobl yn gwybod pam eu bod wedi tawelu

6.3 O dro i dro mae gweithredwyr yn cael cyfnod tawel heb wybod pam mewn gwirionedd. Mae hyn yn arbennig o wir am y maes hunanddarpar yn y cam hwn (gyda 40% o'r rhai sy'n nodi bod busnes ar i lawr yn dweud nad ydynt yn gwybod pam).

"Fel arfer byddem wedi cael ychydig o archebion ar gyfer yr haf erbyn hyn, ond prin yw'r rhai a gafwyd yr haf hwn"
Llety hunanddarpar, y gogledd

7. PROFFIDIOLDEB




Proffidioldeb yn edrych yn well nag ynghynt yn y flwyddyn

7.1 Mae tri o bob deg (30%) o'r busnesau yn adrodd am gynydd mewn elw ar gyfer y cyfnod, ac mae cyfran debyg (28%) yn adrodd am ostyngiad. Nid yw'r canlyniad hwn yn cyd-fynd â chynnydd mewn niferoedd ymwelwyr, gan ddangos er bod busnesau wedi bod yn brysurach yn ystod y cyfnod hwn, nad ydynt o reidrydd wedi gwneud mwy o elw. Wedi dweud hynny, mae'r canlyniad yn llawer yn fwy cadarnhaol nag yn y cam ymchwil yn ystod y Pasg yn gynharach eleni.

"Roeddem yn fwy prysur oherwydd y tywydd da; mae ein helw yn ymddangos fel pe bai'n gyfartal ar y cyfan neu ychydig yn uwch"
Atyniad, y de-orllewin

TUEDDIADAU O RAN PROFFIDIOLDEB




Dychwelyd i amseroedd gwell

7.2 Fel y crybwyllwyd uchod, mae proffidioldeb yn y diwydiant yn sydyn yn edrych yn llawer mwy addawol na deufis yn ôl yn ystod y Pasg.

8. FFYNHONNELL ARCHEBION

SIANELI HYRWYDDO A DDEFNYDDIWD



Mae gwefannau a chyfryngau cymdeithasol eu hunain wedi dod yn rhywbeth eithaf cyffredin erbyn hyn


8.1 Mae mwyafrif y busnesau twristiaeth yng Nghymru bellach yn defnyddio eu gwefan a'u cyfryngau cymdeithasol eu hunain i hyrwyddo eu hunain. Fodd bynnag mae'r rhain yn rhan o gymysgedd o sianeli hyrwyddo ar-lein ac all-lein.

Gwahaniaethau fesul sector

8.2 Mae rhai gwahaniaethau fesul sector, a'r rhai mwyaf sylweddol yw:

- Mae 79% o weithredwyr llety â gwasanaeth yn defnyddio asiantaethau teithio ar-lein (e.e. booking.com)
- Mae 30% o weithredwyr hunanddarpar yn defnyddio Airbnb
- Mae 93% o atyniadau a darparwyr gweithgareddau yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol

MONITRO ARCHEBION



Gofynnwyd C9 i'r rhai sy'n defnyddio unrhyw sianeli ar-lein yn C8

Nid oes llawer yn monitro o ble y daw'r archebion

8.3 Nid yw tri o bob pump (59%) o'r busnesau sy'n defnyddio sianeli ar-lein yn monitro o ble y daw eu harchebion. Mae rhesymau yn cynnwys bod yn rhy brysur i boeni, a dibyniaeth gref ar fusnes dychwel, yn arbennig ymhlith busnesau bach.

"Mae gennym grŵp sefydledig o bobl sy'n dychwelyd o flwyddyn i flwyddyn."
Llety â gwasanaeth, y gogledd

"Rydym yn safle bach iawn felly nid ydym yn monitro o ble y daw'r archebion"
Parc carafanau, y gogledd

"Y cyfan sydd ei angen arnaf yw fy ffôn a'm pin ysgrifennu"
Llety hunanddarpar, y gogledd

8.4 Mae rhai'n ceisio monitro ffynonellau ar-lein ond maent yn canfod naill ai nad ydynt yn ei ddeall yn ddigon da eu hunain neu nid yw eu cwsmeriaid yn cofio pa wefan y daethant o hyd iddi.

"Fe wnes i stopio monitro o ble roedd busnes ar-lein yn dod oherwydd nad oedd yn gwneud synnwyr"
Parc carafanau, y gogledd


"Rydym yn gofyn i bobl o ble y daethom o hyd i ni ond nid ydynt yn cofio. Maen nhw ond yn dweud 'ar-lein' felly ni allwn ni fonitro."
Parc carafanau, y gogledd

Mae rhai busnesau yn fwy blaengar o lawer

8.5 Mae rhai busnesau, yn enwedig rhai mwy gyda thîm marchnata neu arbenigwr gwefannau, llawer yn fwy ymwybodol o ble y daw eu harchebion.

"Mae ein technegydd TG yn monitro'r sianeli"
Llety â gwasanaeth, y canolbarth

"Mae ein tîm marchnata yn monitro o ble y daw'r archebion"
Llety â gwasanaeth, y de-orllewin



Gofynnwyd C10 i'r rheini sy'n monitro o ble y daw'r archebion yn unig

Canlyniadau'n amrywio fesul sector

8.6 Ar gyfartaledd, mae tri chwarter (75%) yr archebion yn cael eu gwneud ar-lein a chwarter (25%) yn all-lein. Mae'r rhaniad ar-lein yn eithaf cyfartal rhwng eu sianeli eu hunain a sianeli trydydd parti.

8.7 Fodd bynnag, mae'r canlyniadau'n amrywio'n fawr fesul sector. Mae busnesau â gwasanaeth a busnesau hunanddarpar yn gweithredu mewn sectorau lle y mae asiantiaid trydydd parti wedi datblygu'n eithaf pwerus. Ar gyfer gweithredwyr â gwasanaeth, mae booking.com wedi dod yn rym diamheuol yn y farchnad, gan ei gwneud yn anodd i'r rheini nad ydynt wedi cofrestru i gystadlu.

"Mae booking.com yn rheoli'r farchnad ar hyn o bryd."

Llety â gwasanaeth, y canolbarth

"Mae'r rhan fwyaf o'n harchebion yn dod drwy booking.com"

Llety â gwasanaeth, y de-ddwyrain

- 8.8 Ar gyfer gweithredwyr hunanddarpar, os ydynt yn cofrestru gydag asiantaeth yna mae'r asiantaeth yn rheoli eu marchnata ac felly eu harchebion.

"Rydym yn defnyddio Holiday Cottages ac maen nhw'n delio â phopeth sy'n ymwneud â marchnata. Nid oes hawl gennyf hyrwyddo unrhyw beth."

Llety hunanddarpar, y de-ddwyrain

- 8.9 Ceir lefelau uchel o ymwelwyr a defnydd prin o drydydd partion mewn sectorau eraill fel bwytai / tafarndai / caffis, atyniadau a darparwyr gweithgareddau. Felly mae'r rhan fwyaf o'u harchebion yn cael eu gwneud all-lein neu drwy eu sianeli ar-lein eu hunain.

Sianeli cyfunol

- 8.10 O dro i dro nid yw'r sianel a ddefnyddiwyd ar gyfer archebu yr un peth â sut y daeth y cwsmer o hyd i'r busnes. Mae enghreifftiau'n cynnwys dod o hyd i fusnes ar wefan trydydd parti ond cysylltu â nhw'n uniongyrchol, neu ddod o hyd i wefan y busnes ac yna archebu dros y ffôn.

"Mae'r rhan fwyaf o'n cwsmeriaid yn hoffi archebu yn uniongyrchol dros y ffôn gyda'r rheolwr"

Parc carafanau, y gogledd

Argymhellion personol a'r niferoedd o ymwelwyr

- 8.11 Mae rhai busnesau'n ddibynnol ar argymhellion personol ar lafar a phobl yn cnocio ar y drws yn unig. Cyhyd ag y bo hynny'n gweithio iddyn nhw, maent yn hapus nad oes angen iddynt ddenu cwsmeriaid drwy ddulliau eraill.

"Mae'r holl archebion a gaf yn deillio o argymhellion personol ar lafar ac rwy'n hoffi hynny - rwyf yn ffyslyd ynglŷn â phwy sy'n dod yma"


Llety hunanddarpar, y gogledd

"Mae'n ffordd hen-ffasiwn o'i wneud ond mae llawer o bobl ond yn cnocio ar y drws wrth yrru neu gerdded drwy'r ardal."

Llety â gwasanaeth, y gogledd

9. HYDER AR GYFER YR HAF

HYDER FESUL SECTOR



Llawer i edrych ymlaen ato

9.1 Mae'r haf yn naturiol yn dymor y mae gweithredwyr yn hyderus amdano, ac yn dilyn hanner tymor da ym mis Mai/Mehefin, mae hyder yn uchel eto eleni.

"Mae'r ardal yn mynd yn brysurach ac mae diddordeb newydd o ysgolion yng Nghaerdydd. Rydym yn llawn tan y Nadolig"
Gweithredwr gweithgareddau, y canolbarth


"Rydym yn llawn ar gyfer y cyfnod o chwe wythnos o wyliau ysgol"
Parc carafannau, y gogledd

9.2 Mae rhai darparwyr llety â gwasanaeth yn edrych ymlaen at ddigwyddiadau'r haf yn denu ymwelwyr i'w hardal.

"Mae'r haf yn edrych yn dda gan fod seremonïau graddio prifysgolion a rhai digwyddiadau yng Nghaerdydd, fel cyngerdd Ed Sheeran."
Llety â gwasanaeth, y de-ddwyrain

"Rydym yn rhesymol hyderus gan fod archebion eisoes ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru"
Llety â gwasanaeth, y canolbarth

TUEDD MEWN HYDER



Mae'r hyder yn uchel, hyd yn oed ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn

9.3 Mae'r lefelau hyder ar hyn o bryd yn uwch nag unrhyw adeg arall yn ystod y tair blynedd diwethaf. Yn sydyn mae cyfnod da ar ôl dechrau gwael i'r flwyddyn wedi rhoi gweithredwyr mewn hwyliau bywiog.

“Mae'n edrych yn dda iawn yr haf hwn. Llawer yn well na'r llynedd.”
Parc carafanau, y gogledd